Diweddariad Cylchlythyr CEDC 2008

Pwy ydym ni?
Mae tîm craidd CEDC yn cynnwys tri ymgynghorydd tai/cydraddoldeb sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sydd wedi gweithio gyda chynghorau a chymdeithasau tai lleol ar draws Cymru ers 2003.

Sut gallwn ni eich helpu chi?
Mynychodd ymgynghorwyr CEDC lansiad diweddar Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol 2008-11 Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Ne Cymru. Mae'r Cynllun yn heriol ac mae'n cwmpasu materion y bydd angen i ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru fynd i'r afael â hwy, megis:

- ***Arolygu a Rheoleiddio*** Mae'r Cynllun yn ei wneud yn ofynnol i'ch polisïau gydymffurfio â'r codau rheoleiddiol perthnasol. Gall CEDC eich helpu i gwrdd â'r agenda cydymffurfio.

- ***Trosglwyddo stoc*** Mae'r Cynllun yn ei wneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau bod y landlordiaid trosglwyddo stoc newydd yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Gweithredu ac yn eu cyflawni. Mae CEDC mewn sefyllfa dda iawn i weithio gyda'r sefydliadau trosglwyddo stoc newydd ar y materion hyn.

- ***Monitro*** Mae'r Cynllun yn nodi mesurau i ymdrin ag adrodd anghyson o safbwynt data gan sefydliadau ac mae'n cyfeirio at waith blaenorol a gynhaliwyd gan y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol. Mae CEDC mewn sefyllfa dda i gadw cleientiaid ynghlwm wrth y fframwaith monitro newydd i awdurdodau lleol a LCCau sy'n cael eu datblygu gan ystod o sefydliadau yn cynnwys Tai Pawb a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

- ***Asesiadau Effaith Cydraddoldeb*** Mae deddfwriaeth yn ei wneud yn ofynnol i sefydliadau asesu effaith eu polisïau. Mae CEDC ar hyn o bryd yn profi'r Pecyn Cymorth Asesu Cydraddoldeb y mae wedi'i ddatblygu yn ddiweddar ar ran Grŵp Tai Cadarn. Yn ogystal, mae un o'i ymgynghorwyr yn ymwneud â Phanel Asesu Effaith Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Strategaeth Dai Genedlaethol drafft 2008-2011. Byddai CEDC yn dod â'r holl arbenigedd hwn i'ch helpu i gynnal eich asesiadau effaith..

- ***Hyfforddiant*** Mae'r Cynllun yn nodi ystod o feysydd lle y bydd hyfforddiant yn hanfodol. Er enghraifft, mae'n ei wneud yn ofynnol i gontractwyr ac isgontractwyr gydymffurfio â safonau cydraddoldeb hiliol sylfaenol yn eu harferion cyflogaeth ac i fod yn ymrwymedig i gydraddoldeb hiliol. Gall CEDC gynorthwyo gyda hyfforddiant o'r fath a thrafod meysydd eraill gyda chi lle y gallai fod angen hyfforddiant i'ch galluogi i fynd i'r afael â'r Cynllun Gweithredu.

- ***Prif ffrydio*** Mae'r Cynllun yn cynnwys gofynion cydraddoldeb sy'n effeithio ar feysydd fel strategaethau adnewyddu tai awdurdodau

lleol, gweithio gyda landlordiaid sector preifat a chontractwyr lleol. Mae ymgynghorwyr CEDC yn cwmpasu ystod o ddisgyblaethau a gallant chwarae rôl allweddol wrth eich helpu i brif ffrydio'r agenda cydraddoldeb.

Cyrsiau Newydd
Rydym ar hyn o bryd yn datblygu ystod o gyrsiau newydd cyffrous yn cynnwys:

- **Rheoli Her Cydraddoldeb** Golwg strategol ar faterion cydraddoldeb o safbwynt Cymru a safbwynt DU ehangach, i staff â chyfrifoldebau strategol

- **Hyfforddiant cydraddoldeb i gynghorwyr ac aelodau byrddau** Cwrs hanner diwrnod yn seiliedig ar hyfforddiant llwyddiannus a gyflwynwyd yn ddiweddar i 35 o Gynghorwyr Sir y Fflint

- **Y Cod Statudol ar Gyflogaeth a Chi** I staff AD a rheolwyr yn edrych ar gydraddoldeb cysylltiedig â chyflogaeth a materion hawliau dynol sydd wedi diweddu mewn tribiwnlysoedd…a sut y gall arfer gorau helpu i osgoi trafferthion i bawb!

- **Datblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol** I holl staff, cynghorwyr ac aelodau bwrdd

Cysylltwch â'n prif hyfforddwr, Clifton Robinson am fwy o wybodaeth ar unrhyw rai o'r uchod. Ebostiwch info@cliftongrobinson.co.uk

Profiad
Gall ein hymgynghorwyr dynnu ar eu profiad gydag ystod o sefydliadau yn cynnwys:

- Y Comisiwn Archwilio

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Newydd

- Panel Arbenigwyr Cydraddoldeb a ffurfiwyd yn ddiweddar gan LlCC i helpu i gyflwyno Strategaeth Dai Genedlaethol newydd

- Gwaith ymgynghorol i ystod eang o sefydliadau yn cynnwys:

    - Llywodraeth Cynulliad Cymru

    - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

    - Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru

    - Awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru a Lloegr